CYFARFOD:	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**26 TACHWEDD 2026**
TEITL:	**CYLLIDEB REFENIW 2026/27 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2026**
PWRPAS:	**Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf**
GWEITHREDIAD:	**Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu'r penderfyniadau i'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**
AELOD CABINET:	**CYNGHORYDD HUW WYN JONES**
SWYDDOG CYSWLLT:	**FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL**

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026) i'r Cabinet ar 10 Tachwedd 2026.

3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

4. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:
Adroddiad Cabinet 10/11/2026: Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026